# Argyfwng Costau Byw yng Nghymru

## CYMHWYSO GWYDDOR YMDDYGIAD

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi adroddiad: ‘Yr argyfwng costau byw yng Nghymru – Drwy lens iechyd cyhoeddus’. Mae’r adroddiad yn nodi’r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio ac opsiynau sy’n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymatebion tymor byr, canolig a hir.

Cliciwch yma i weld yr adroddiad llawn

**Mae deall a ffurfio ymddygiadau**, gan gynnwys cael mynediad at wasanaethau cymorth, yn hollbwysig wrth ymateb i’r argyfwng costau byw. Os ydych yn **ymarferydd neu’n wneuthurwr polisi** sy’n ceisio cefnogi’r cyhoedd, bydd y camau syml isod yn helpu i sicrhau eich bod yn ‘cyrraedd eich nod’ yn amlach.



### GALLU

**Cynyddu gwybodaeth am wasanaethau cymorth**



Datblygu cyfathrebu clir, dealladwy

Darparu cyfathrebiadau sy’n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer grwpiau targed



### CYFLE

**Gwneud gwasanaethau a phrosesau yn hawdd, yn hygyrch ac yn gynhwysol**



Lleihau nifer y camau sydd eu hangen i gael mynediad at wasanaeth, neu rannu’r broses yn dasgau llai a haws

Ymgysylltu â grwpiau targed i ddeall pa mor hawdd yw defnyddio gwasanaethau

Ystyried grwpiau nad oes ganddynt yr adnoddau gofynnol i gael cymorth (e.e. gliniadur, ffôn clyfar neu gysylltiad rhyngrwyd)

Sicrhau bod gwasanaethau wedi’u gwreiddio ar gymunedau lleol ac wedi’u cysylltu’n dda





### YMDDYGIAD

**Mae pobl yn fwy tebygol o gael mynediad at wasanaethau os oes ganddynt y gallu, y cyfle a’r cymhelliant i wneud hynny**

(Michie et al 2011).

### CYMHELLIAD

**Lleihau stigma a chywilydd wrth fagu hyder i gael mynediad at wasanaethau cymorth**

Defnyddio iaith nad yw’n barnu



Normaleiddio’r ffaith fod angen cymorth a gofyn amdano

Dylai gwybodaeth a gwasanaethau ganolbwyntio ar yr unigolyn



GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

Uned Gwyddor Ymddygiad | Behavioural Science Unit

CLLLC | WLGA


**Deunydd cyfeiriol:**

Uned Newid Ymddygiad Swydd Hertford (2022) Supporting residents with the increased cost-of-living: Behavioural science recommendations for local authorities Susan Michie, Lou Atkins, and Robert West (2014) “The behaviour change wheel.” A guide to designing interventions. 1st ed. Great Britain: Silverback Publishing